Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cynllun Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Mae cynllun SC11189 yn gynllun i'r DU yn unig ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer gwobrwyo cronfeydd yr UE.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 2 Hydref 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 2 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-grant-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Rhanbarth**

**Teitl**

**Sail gyfreithiol**

**Amcan**

**Diben**

**Corff awdurdodedig**

**Cymhwysedd**

**Telerau ac amodau**

**Cefnogaeth y sector**

**Hyd**

**Cyllideb**

**Ffurf y cymorth**

**Cyfrifo cymorthdaliadau**

**Cymhorthdal uchaf**

**Manylion cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-grant-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 1. Rhanbarth

Cymru

# 2. Teitl y cynllun cymhorthdal

Cynllun Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

# 3. Sail gyfreithiol yn y DU

Mae pwerau Gweinidogion Cymru sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru gefnogi Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi'u cynnwys yn y canlynol:

- Adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
- Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006
- Adran 126 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996
- Adran 18(1) o Ddeddf Tai 1996

# 4. Amcan polisi penodol y Cynllun

Mae amcan polisi penodol y cynllun hwn yn gysylltiedig â darparu tai fforddiadwy fel yr amlinellir yn ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi hyd yn oed yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt.

Bydd yn cyfrannu at y targed o ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel i'w rhentu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-grant-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn y sector cymdeithasol yn nhymor y llywodraeth hon ac unrhyw darged dilynol a fydd yn cael ei osod gan lywodraethau'r dyfodol.

Bydd yn cael effaith gadarnhaol hefyd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gyfrannu'n benodol at Gymru iach a mwy cyfartal. Dangosir hyn gan fuddiannau clir o ran iechyd cael cartref o ansawdd da sy'n fforddiadwy mewn man diogel.

Y Grant Tai Cymdeithasol (SHG) yw'r brif raglen gyfalaf ar hyn o bryd sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd uchel yng Nghymru gan awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Mae SHG yn rhaglen dreigl gyda llywodraethau olynol yn cytuno ar gyllid. Mae SHG yn darparu cyllid grant i awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gyflwyno cartrefi diogel ac ynni-effeithlon o ansawdd uchel ar gyfer rhent cymdeithasol, rhent canolradd a rhanberchnogaeth ar gyfer y bobl sydd eu hangen fwyaf.

Mae SHG yn gynllun gwaddol o drefniadau Cymorth Gwladwriaethol yr UE sydd wedi'i gynnwys o dan 'hawliau tad-cu'.

# 5. Diben y cynllun

Pwrpas y cynllun yw cefnogi'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy sy'n cynnwys y deiliadaethau a'r anghenion penodol canlynol:

## Deiliadaeth

- Tai Cymdeithasol (ar Rent Cymdeithasol)
- Tai Cymdeithasol (nid ar rent cymdeithasol)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-grant-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Rhent Canolradd
- Rhanberchnogaeth

## Angen

- Anghenion Cyffredinol
- Achub Morgeisi
- Pobl Hŷn
- Gofal ychwanegol i bobl hŷn
- Tai â chymorth - Trais Domestig, Camddefnyddio Sylweddau, Cyn-droseddwyr, Digartrefedd, Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl, Ffoaduriaid, Anableddau Corfforol, Camddefnyddio Sylweddau, Pobl Ifanc Agored i Niwed neu unrhyw grwpiau cleientiaid eraill y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru

## Math o weithgarwch

- Prynu tir i adeiladu tai fforddiadwy
- Adeiladu cartrefi fforddiadwy gan gynnwys dymchwel ac ailadeiladu stoc awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig presennol
- Prynu cartrefi o'r farchnad agored neu gan ddatblygwyr preifat.
- Caffael a datblygu adeiladau annomestig, e.e. swyddfeydd, gwestai, cartrefi gofal, llety myfyrwyr i dai fforddiadwy

# 6. Awdurdod(au) Cyhoeddus sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu'r Cynllun

Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-grant-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 7. Categori(au) o fentrau cymwys

Awdurdodau lleol yng Nghymru a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru.

## 8. Crynodeb o delerau ac amodau'r cynllun

Rhaid i bob cynllun sy'n cael Grant Tai Cymdeithasol:

- Fod wedi'i leoli yng Nghymru a chael ei ddatblygu yn unol â blaenoriaethau tai strategol yr awdurdod lleol.
- Cydymffurfio â'r safonau dylunio, ynni a chynnal a chadw perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Cydymffurfio â pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhent Cymdeithasol a Chanolradd lle bo hynny'n berthnasol.
- Cydymffurfio â chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru ar gyfer pob gweithgaredd o dan y cynllun.
- Bod â'r holl gymeradwyaethau statudol angenrheidiol ar waith e.e. cynllunio, SAB, Rheoliadau Adeiladu ac ati.
- Sicrhau bod yr holl yswiriant angenrheidiol, bondiau perfformiad contractwr, premiymau gwarant yn eu lle.
- Cydymffurfio â'r holl drefniadau cyllido gan fenthycwyr preifat neu'r PWLB.
- Cydymffurfio â'r Safonau Rheoleiddio cyfredol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru fel y nodir yn y **Fframwaith rheoleiddio**.

Rhestrir rhagor o fanylion am y telerau ac amodau sy'n benodol i weithgareddau unigol isod:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-grant-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Safonau

- Mae prosesau craffu technegol Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dyluniadau'n adlewyrchu anghenion cleientiaid fesul cynllun. Lle bynnag y bo'n bosibl, rhaid cynllunio cartrefi i safonau anghenion cyffredinol ar gyfer cartrefi newydd, ac i'r graddau y bo'n ymarferol gwneud hynny, caniatáu byw'n annibynnol.
- Rhaid i bob cartrefi hunangynhwysol newydd gydymffurfio â Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru (WDQR 2021).
- Rhaid i'r holl eiddo sydd ar werth ar y farchnad agored neu eiddo oddi ar y silff a brynwyd gan ddatblygwyr gydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC 2023) o leiaf.
- Ar gyfer llety a rennir, mae cyfuniadau o Ofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 (WDQR 2021), Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) neu fathau eraill o arfer da yn gymwys yn unol â gofynion penodol y grŵp cleientiaid.
- Bydd pob cartref hunangynhwysol yn cael ei reoli a'i gynnal i gydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC 2023).

## Polisi rhenti

- Rhaid i bob eiddo a ariennir gan grant ar gyfer anghenion cyffredinol neu bersonau hŷn gydymffurfio â pholisi Rhent Llywodraeth Cymru.
- Rhaid i bob eiddo a ariennir gan grant ar gyfer rhent canolradd gydymffurfio â pholisi Rhent Canolradd Llywodraeth Cymru.

## Gofynion adfachu

Pan fydd eiddo'n cael ei werthu, rhaid ailgylchu'r grant naill ai i'r gronfa Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu (RCG) neu ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-grant-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 9. Sectorau i'w cefnogi

- Y sector tai yng Nghymru
- Y sector adeiladu

## 10. Hyd y cynllun

1 Ionawr 2021 hyd at 31 Mawrth 2026.

## 11. Y gyllideb ar gyfer cymorth o dan y cynllun hwn

Hyd at £2,300,000,000 (Dwy biliwn tri chan miliwn o bunnoedd) dros gyfnod y cynllun uchod.

## 12. Ffurf y cymorth

Darperir cymorth drwy gyllid grant uniongyrchol.

## 13. Sail ar gyfer cyfrifo cymorthdaliadau

- Cyfrifir cymorthdaliadau gan ddefnyddio'r Model Hyfywedd Safonol ("SVM"). Mae'r SVM yn fodel gwerth net presennol sy'n dangos y bwlch cyllido, h.y. lefel y grant sydd ei angen i adennill costau. Mae'r SVM yn cynnwys

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-grant-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rhagdybiaethau ar incwm rhent a chodiadau rhent a chostau rheoli a chynnal eiddo.
- Mae pob cynllun yn cael y swm o gymhorthdal sydd ei angen i bontio'r bwlch ariannu rhwng y rhenti dros oes y prosiect a'r costau datblygu/cynnal a chadw, yn amodol ar gap cyfradd grant o 70%. Gellir cynyddu'r cap os yw'r landlord cymdeithasol yn darparu digon o gyfiawnhad nad yw'r cynllun yn hyfyw ar y gyfradd sydd wedi'i gapio.

## 14. Uchafswm y cymhorthdal a ganiateir o dan y cynllun

£30 miliwn

## 15. Manylion cyswllt


**Yr Uned Rheoli Cymorthdaliadau**

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Y Deyrnas Unedig

**Rhif ffôn:** + 44 (0)3000 604 400
**E-bost:** **YrUnedRheoliCymorthdaliadau@llyw.cymru**


Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-grant-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Uned Rheoli Cymorthdaliadau
Subsidy Control Unit

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynllun-grant-tai-cymdeithasol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.